| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD :** | **3 Mawrth 2016** |
| **TEITL :** | **Penodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |
| **AWDUR :** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDIAD:** | **Penodi aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |

**1. Cefndir**

1.1 Gan fod gwasanaeth un o aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi dod i ben, hysbysebwyd am ymgeiswyr i lenwi'r sedd, yn unol â'r gofynion statudol.  Ystyriwyd y ceisiadau gan Banel Ymgynghorol ar 18 Chwefror 2016.

1.2 O dan y ddeddfwriaeth berthnasol mae'n rhaid i'r Panel Ymgynghorol ystyried y ceisiadau ac yna argymell wrth y Cyngor pa ymgeiswyr i'w penodi. Mae'r Panel yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac, yn unol â'r gofynion statudol, gynrychiolydd o'r cynghorau cymuned ac 'aelod lleyg', sydd heb gysylltiad uniongyrchol â llywodraeth leol.  Rôl y Panel yw ystyried pob cais a dderbynnir gan ddefnyddio'r meini prawf  a osodwyd gan y Cyngor.  Tra mai'r Cyngor sydd i wneud y penodiad, mae'n rhaid iddo roi sylw i argymhellion y panel.

1.3.  Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrylwyr o'r holl geisiadau, penderfynodd y Panel argymell penodi Aled Jones.  Mae Aled yn byw ym Mangor ac yn gyd-reolwr gyfarwyddwr cwmni cyfieithu Cymen yng Nghaernarfon.

**2. Argymhelliad**

2.1 Penodi Aled Jones yn aelod annibynnol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd i wasanaethu am gyfnod o 6 mlynedd.